

CYP(4)-01-04 – Papur 2

Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc

Dyddiad: Dydd Mercher 15 Ionawr 2014

Lleoliad: Ystafell Bwyllgor, Senedd, Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Teitl: Sesiwn Graffu ar Ordewdra ymysg Plant

Diben:

Mae'r papur hwn yn darparu tystiolaeth ar gyfer ymchwiliad y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc ar ordewdra ymysg plant.

Mae'r papur tystiolaeth yn bwrw golwg ar y canlynol:

- Maint y broblem, yr her o ostwng lefel gordewdra ymysg plant yng Nghymru a'r rhwystrau i wneud hynny;
- Dulliau presennol o ostwng lefel gordewdra ymysg plant;
- Sut i fynd i'r afael â'r broblem o ordewdra ymysg plant yng Nghymru yn y dyfodol.

Maint y broblem:

Mae unigolyn yn mynd yn ordew os yw'n bwyta ac yfed mwy na gofynion egni metabolaeth y corff dros gyfnod hir. Mae gordewdra'n effeithio ar allu unigolyn i gymryd rhan mewn gweithgareddau bob dydd, yn ogystal â chael effeithiau byrdymor a hirdymor ar ei iechyd. Yn y tymor byr, gall gordewdra effeithio ar les ac ansawdd bywyd unigolyn, ac mae problemau iechyd hirdymor yn cynnwys perygl cynyddol o gael clefyd coronaidd y galon a strôc. Yn ogystal, mae pobl ordew yn fwy tebygol o ddatblygu diabetes math 2 a rhai mathau o ganser.

Mae afiechydon sy'n gysylltiedig â gordewdra yn rhoi baich ariannol sylweddol ar wasanaethau. Amcangyfrifir bod gordewdra'n costio dros £73 miliwn i'r GIG yng Nghymru, ac mae'r ffigur hwn yn codi i bron i £86 miliwn o gynnwys pobl sydd dros bwysau. Yn 2008/09, gwariwyd rhwng £1.4 miliwn ac £1.65 miliwn bob wythnos yn trin clefydau a achoswyd gan ordewdra, sef rhwng £25 a £29 y pen yng Nghymru a rhwng 1.3% ac 1.5% o gyfanswm y gwariant ar ofal iechyd.

Yn ôl adroddiad yr UK Government Office for Science Foresight, mae'r cynnydd mewn lefelau gordewdra yn ganlyniad i ffyrdd modern o fyw yn deillio o newidiadau mewn patrymau gwaith, trafniadaeth, dulliau cynhyrchu bwyd a gwerthiant bwyd. Mae'r diagram *obesity system influence* yn yr adroddiad hwn ynghlwm yn **Atodiad 1**.

Mae cyfran yr oedolion yng Nghymru sydd dros bwysau neu'n ordew wedi cynyddu ychydig dros y 5 mlynedd ddiwethaf, o 57% yn 2008 i 59% yn 2012 (Arolwg Iechyd Cymru). Mae'r arolwg hwn hefyd yn nodi bod 23% o oedolion bellach yn ordew, o gymharu â 21% yn 2008. Mae lefelau gordewdra yn uwch ym mhob grŵp oedran yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig, gyda chyfraddau gordewdra ymysg oedolion yn amrywio o 28% yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig i 18% yn yr ardaloedd lleiaf difreintiedig.

Er mwyn gwella data, cyflwynwyd Rhaglen Mesur Plant Cymru (CMP) i sicrhau bod plant oedran derbyn (4 a 5 oed) yn cael eu pwyso a'u mesur yn yr un modd ledled Cymru. Yn sgil y Rhaglen hon, ym mlwyddyn academaidd 2011/12 nodwyd bod bron i dri o bob deg (28.2%) o blant oedran derbyn dros bwysau neu'n ordew, gydag un o bob wyth (12.5%) yn ordew. Mae data arall gan Arolwg Iechyd Cymru yn dangos nad yw cyfraddau dros bwysau a gordewdra ymysg plant (2-15 oed) wedi newid rhyw lawer ers 2008, gyda ffigur o 34% o gymharu â 33% bum mlynedd yn ôl.

Yn fwy cadarnhaol, dangosodd Cerdyn Adrodd diweddar gan Swyddfa Ymchwil UNICEF, sy'n dangos lles plant mewn 29 o wledydd cyfoethog, mai dim ond Gwlad Belg, Ffrainc, Sbaen a'r Deyrnas Unedig a brofodd ostyngiad yng nghanran y plant 11, 13 a 15 oed sydd

dros bwysau rhwng 2001/2002 a 2009/2010.

O ystyried bod dros hanner y plant gordew yn debygol o dyfu i fyny i fod yn oedolion gordew, mae cynnal deiet iach a chytbwys yn ystod y blynyddoedd cynnar yn hollbwysig. Fodd bynnag, rydym yn gwybod nad yw digon o bobl yn dilyn canllawiau cenedlaethol ar yr hyn a ystyrir yn ddeiet iach a chytbwys h.y. cyfyngu ar halen, siwgr a braster dirlawn a bwyta mwy o ffrwythau a llysiau. Mae hyn yn glir o ganfyddiadau Arolwg Iechyd Cymru sy'n dangos bod 59% o blant (4-15 oed) yn dweud eu bod yn bwyta ffrwythau bob dydd a 50% yn dweud eu bod yn bwyta llysiau bob dydd. Yn ogystal, mae arolwg diweddaraf Ymddygiad Iechyd mewn Plant Oedran Ysgol (HBSC) yn dangos bod plant Cymru'n bwyta llai o ffrwythau a llysiau na phlant yng Ngogledd America a'r rhan fwyaf o wledydd Ewrop.

Yn ogystal, nid yw lefelau gweithgarwch corfforol ymysg plant cystal ag y gallent fod ac mae'r lefelau hynny wedi bod yn gymharol sefydlog ers 2007. Mae gwybodaeth o arolwg HBSC 2009/10 yng Nghymru yn dangos mai dim ond ychydig dros draean (35%) o ferched a hanner (53%) o fechgyn 11 i 16 oed sy'n dweud eu bod yn gwneud gweithgarwch corfforol egniol am o leiaf 60 munud y dydd, bum niwrnod neu fwy yr wythnos. Mae'r canrannau hyn yn gostwng yn ôl grŵp oedran, gyda'r gostyngiad yn arbennig o amlwg ymysg merched. Ym mlwyddyn 7, mae 42% o ferched yn dweud eu bod yn gwneud gweithgarwch corfforol egniol, ond mae'r ffigur hwn yn gostwng i 28% erbyn blwyddyn 11. Ar y cyfan, mae ffigurau Cymru'n debyg i gyfartaledd HBSC ar draws pob gwlad dan sylw yn y tri grŵp oedran a arolygwyd.

Yn fwy cadarnhaol, mae Arolwg Chwaraeon Ysgol 2013 yn dangos bod nifer y bobl ifanc sy'n cymryd rhan mewn chwaraeon neu weithgarwch corfforol deirgwaith neu fwy yr wythnos wedi codi'n sylweddol o 27% yn 2011 i 40% yn 2013. Mae'r arolwg hefyd yn dangos bod 92% o ddisgyblion yn mwynhau Addysg Gorfforol, gyda 60% yn dweud eu bod 'wrth eu boddau' â'r pwnc.

Dull presennol

Ar ddechrau tymor y Llywodraeth hon, cydnabuwyd bod gordewdra yn her genedlaethol allweddol yn y Rhaglen Lywodraethu. Yn ogystal, mae'r angen am weithredu ar y cyd ar ordewdra yn rhan o ddogfennau strategol ehangach, gan gynnwys *Law yn Llaw at Iechyd, Ein Dyfodol Iach* a'r gyfres o adroddiadau blynyddol gan y Prif Swyddog Meddygol. Mae dogfennau o'r fath wedi amlygu'r angen i gymryd camau amlweddol i fynd i'r afael â gordewdra ymysg plant. Mae enghreifftiau o waith yn cynnwys:

Camau gweithredu yn ystod beichiogrwydd – Mae iechyd ac ymddygiad rhieni, yn enwedig mamau, yn dylanwadu'n sylweddol ar iechyd a lles plentyn. I gydnabod hyn, mae'r Weledigaeth Strategol ar gyfer y Gwasanaethau Mamolaeth (Medi 2011) yn canolbwyntio ar wella iechyd menywod a'u babanod yn ystod beichiogrwydd a'r enedigaeth. Mae'n cynnwys camau i wella data ac adroddiadau mewn perthynas ag ennill pwysau yn ystod beichiogrwydd fel bod Byrddau Iechyd yn glir ynglŷn â maint yr her, ynghyd â sefydlu mentrau i helpu menywod i ennill pwysau iach yn ystod beichiogrwydd.

Camau gweithredu yn ystod y blynyddoedd cynnar – Y llynedd, lansiodd Llywodraeth Cymru *Adeiladu Dyfodol Mwy Disglair: Cynllun Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant* er mwyn sicrhau cydlyniant ar draws gwahanol bolisïau a rhaglenni sy'n effeithio a dylanwadu ar y blynyddoedd cynnar (cyn y geni tan 7 oed). Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod plant yn cynnal pwysau normal trwy'r camau gweithredu canlynol:

- Y Rhaglen Bwydo ar y Fron sy'n ceisio cynyddu cyfraddau bwydo ar y fron a lleihau anghydraddoldeb ym maes bwydo ar y fron.
- Dechrau'n Deg, sef rhaglen amlddisgyblaethol sy'n darparu cyfres gyffredinol o hawliau i bob plentyn dan 4 oed a'u teuluoedd mewn ardaloedd daearyddol a

dargedir. Mae maeth a deiet y teulu yn rhan annatod o'r rhaglen, sy'n codi ymwybyddiaeth rhieni o bwysigrwydd deiet cytbwys a'r angen am brydau rheolaidd a byrbrydau iach.

- Teuluoedd yn Gyntaf, a gyflwynwyd ym mhob awdurdod lleol o fis Ebrill 2012 ymlaen. Un o'i hamcanion yw sicrhau bod plant, pobl ifanc a theuluoedd yn iach ac yn mwynhau bywyd llesol. Mae'n ofynnol i bob awdurdod lleol adrodd ar gynnydd a wnaed yn erbyn dangosyddion penodedig, gan gynnwys un sy'n edrych ar gyfran y plant mewn dosbarth derbyn sydd dros bwysau neu'n ordew. Mae llawer o awdurdodau lleol hefyd yn hyrwyddo gweithgareddau corfforol a maethol trwy'r rhaglen hon, gan gynnwys cymorth i deuluoedd y nodwyd bod ganddynt lawer o anghenion iechyd ychwanegol, megis gordewdra.
- Y Cynllun Cyn-ysgol iach a Chynaliadwy, sy'n darparu canllawiau i greu amgylcheddau iachach ar gyfer y blynyddoedd cynnar. Mae hefyd yn darparu dangosyddion ar gyfer gwaith ar draws pynciau iechyd, gan gynnwys maeth a gweithgarwch corfforol/chwarae gweithredol. Ar hyn o bryd, mae 507 o leoliadau cyn-ysgol ar draws pob ardal awdurdod lleol yn cymryd rhan weithredol yn y cynllun.

Camau gweithredu mewn ysgolion – Lansiodd Cynllun Gweithredu Blas am Oes yn 2008, a oedd yn amlinellu safonau bwyd, diod a maetholion i sicrhau bod y bwyd a ddarperir mewn ysgolion yn iach a chytbwys ac na fyddai byrbrydau a diodydd heb lawer o werth maethol, os o gwbl, ar gael. Mae Rheoliadau Bwyta'n Iach mewn Ysgolion (Gofynion a Safonau Maeth) (Cymru) 2013, a ddaeth i rym ym mis Medi, yn gosod Dyletswydd Statudol ar Awdurdodau Lleol yng Nghymru i sicrhau bod pob ysgol a gynhelir yn cydymffurfio â safonau maeth Blas am Oes. Roedd Cymru hefyd ar flaen y gad pan gyflwynodd frecwast am ddim mewn ysgolion yn 2004, gyda'r bwriad o wella ansawdd bywyd pobl ifanc sy'n byw yng Nghymru a lleihau anghydraddoldebau iechyd yn sgil deiet gwael. Ar hyn o bryd, mae 79% o'r ysgolion cynradd a gynhelir yng Nghymru yn cynnig brecwast am ddim. Lansiodd Cynlluniau Ysgolion Iach - Rhwydwaith Cymru (WNHSS) ym mis Medi 1999 i annog datblygiad cynlluniau ysgolion iach lleol o fewn fframwaith cenedlaethol. Mae'r Fframwaith yn hyrwyddo dull ysgol gyfan o ymdrin â saith pwnc iechyd, gan gynnwys bwyd a ffirwydd. Ar hyn o bryd, mae dros 99% o ysgolion yn cymryd rhan weithredol mewn cynlluniau ysgolion iach lleol.

Lori gymalog gyda phedair cegin llawn cyfarpar yw'r Bws Coginio (TCB). Fe'i lansiodd ym mis Mehefin 2006 ac mae'n ymweld ag ysgolion cynradd ledled Cymru, gan roi blaenoriaeth i ysgolion mewn ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf. Mae athrawon TCB yn darparu gwersi coginio sy'n para 90 munud i ddisgyblion a sesiynau hyfforddi athrawon ar gyfer staff ysgol a chymunedol. Rhwng ei sefydlu yn 2006 a mis Mehefin 2012, aeth bron i 30,000 o ddisgyblion i ddosbarthiadau'r Bws Coginio ledled Cymru a chafodd dros 3,000 o athrawon eu hyfforddi.

Camau gweithredu yn y gymuned – Lansiodd Newid am Oes Cymru, ymgyrch marchnata cymdeithasol, yn 2010 fel rhan o ymateb ehangach Llywodraeth Cymru i helpu pobl i gyrraedd a chynnal pwysau corff iach, i fwyta'n iach ac i fod yn gorfforol egniol. Cynulleidfa darged Newid am Oes Cymru ar gyfer yr 18 mis cyntaf oedd teuluoedd â phlant, yn enwedig y rhai â phlant o oedran ysgol gynradd. Hyd yma, mae dros 76,000 o bobl wedi cofrestru ar gyfer y rhaglen.

Rhaglen gymunedol seiliedig ar dystiolaeth ar gyfer teuluoedd a ddarperir gan staff cymwys ar draws gwasanaethau Iechyd ac Awdurdod Lleol yw MEND (*'Mind, Exercise, Nutrition, Do It'*). Targed y contract presennol yw cyrraedd 1,000 o blant a'u teuluoedd bob blwyddyn.

Nod y rhaglen Cymunedau yn Gyntaf yw helpu i gau'r bylchau addysg/sgiliau, economaidd ac iechyd rhwng ein hardaloedd mwyaf difreintiedig ac ardaloedd mwy cefnog. Un o'i hamcanion strategol yw sicrhau "Cymunedau Iachach". Mae llawer o'r gweithgarwch o dan y faner hon yn canolbwyntio ar gefnogi ac annog bwyta'n iach ac ymarfer corff. Er enghraifft,

mae Gemau Stryd, sefydliad sy'n gweithio mewn cymunedau difreintiedig yn ennyn diddordeb pobl ifanc mewn gweithgareddau chwaraeon, wedi'i ariannu i gynnal prosiectau yn ardaloedd clwstwr Cymunedau yn Gyntaf ledled Cymru.

Camau gweithredu ar hyfforddiant – Gwasanaeth Cymru gyfan sy'n ceisio gwella gallu cymunedau i gefnogi bwyta'n iach ac atal diffyg maethiad yw Sgiliau Maeth am Oes. Mae'n gweithredu ym mhob bwrdd iechyd, a bydd deietegwyr yn ceisio sicrhau bod gan staff cymunedol, gwirfoddolwyr ac arweinwyr cyfoedion y wybodaeth a'r sgiliau sydd eu hangen arnynt i ymgorffori negeseuon maeth yn eu gwaith, cefnogi mwy o bobl leol fel gweithwyr bwyd cymunedol a chryfhau mewnbyn maeth a bwyd cymunedol ym maes anghydraddoldebau iechyd. Erbyn diwedd mis Mawrth 2013, roedd 153 o gyrsiau sgiliau maeth achrededig lefel 2 wedi'u darparu i 1,725 o aelodau staff.

Gwerthuso – Yn ddiweddar, aeth Iechyd Cyhoeddus Cymru ati i gynnal adolygiad o amryw o'r rhaglenni gwella iechyd hyn er mwyn asesu eu cynaliadwyedd, eu gwerth am arian ac a ydynt yn cyflawni canlyniadau â blaenoriaeth sy'n cyd-fynd â pholisïau cenedlaethol. O'r rhaglenni sy'n mynd i'r afael â bod dros bwysau a gordewdra, y Bws Coginio oedd yr unig un yr ystyriwyd bod angen ei hailwampio.

Mae'r gwaith a amlinellir uchod wedi'i gefnogi gan ddatblygiad Llwybr Gordewdra Cymru Gyfan. Mae'r Llwybr hwn, a lansiwyd yn 2010, yn helpu Byrddau Iechyd, sy'n gweithio mewn partneriaeth ag Awdurdodau Lleol a rhanddeiliaid allweddol, i drefnu gwasanaethau, gweithgarwch amlasiantaethol trawsadrannol a pholisïau lleol ar gyfer plant ac oedolion. Mae'r Llwybr yn cynnwys pedair haen (gweler **Atodiad 2**) ond, ar gyfer plant, mae'r ffocws wedi bod ar fesurau ataliol yn bennaf, ac eithrio rhaglen MEND.

Rydym yn ymwybodol bod Byrddau Iechyd Lleol yn defnyddio pob math o wahanol ddulliau i geisio mynd i'r afael â gordewdra. Mae'r ffocws ar ordewdra ymysg plant yn amrywio o ardal i ardal ac, ar hyn o bryd, mae tri bwrdd iechyd wrthi'n sefydlu grwpiau strategaeth gordewdra ymysg plant er mwyn datblygu camau gweithredu yn y maes hwn.

Cyfeiriad i'r dyfodol

Mae gordewdra'n fwy na phroblem iechyd ac ni fydd modd ei datrys trwy ddibynnu ar newid ymddygiad unigol yn unig. Bydd dull llwyddiannus yn gofyn am gydweithredu ar draws llywodraeth er mwyn gwneud newidiadau sylweddol, cynaliadwy i'n hamgylchedd byw er mwyn symud o ddiwylliant sy'n caniatáu ac annog ennill pwysau i ddiwylliant sy'n hyrwyddo dewisiadau iach a phwysau iach i bawb. Felly, bydd angen i ni adeiladu ar y gwaith trawsadrannol sydd wedi arwain at, er enghraifft:: datblygu ysgolion iach; datblygu *Adeiladu Dyfodol Mwy Disglair: Cynllun Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant*; a *Creu Cymru Egniol*.

Mae rhaglen ddeddfwriaethol y Llywodraeth yn darparu amryw o gyfleoedd i gryfhau ein hymdrechion i helpu pobl i gyrraedd a chynnal pwysau iach. Mae cynnydd eisoes wedi'i wneud gyda Deddf Teithio Llesol (Cymru), sydd â'r nod o alluogi pobl i gerdded a beicio a theithio trwy ddefnyddio dulliau mwy egniol. Ar hyn o bryd, rydym yn archwilio dewisiadau i wella iechyd a lleihau anghydraddoldebau iechyd i'w cynnwys yn ein Bil Iechyd y Cyhoedd. Fodd bynnag, mewn rhai meysydd nid oes gan Gymru'r pŵerau angenrheidiol i weithredu ac, yn yr achosion hyn, byddwn yn parhau i lobïo llywodraeth y DU i gymryd camau, yn ôl yr angen.

Mae angen hefyd i ni sicrhau ein bod yn ystyried pob oedran, o feichiogrwydd hyd nes y bydd yr unigolyn yn oedolyn. Mae iechyd ac ymddygiad rhieni, yn enwedig mamau, yn dylanwadu'n fawr ar iechyd a lles plentyn. Rydym yn gwybod pa mor anodd yw hi i drin gordewdra. Mae tystiolaeth yn awgrymu bod menywod sydd eisoes dros bwysau yn debygol o ennill llawer o bwysau yn ystod beichiogrwydd, gan ei gwneud hi'n anoddach iddynt ddychwelyd i'w pwysau cyn y beichiogrwydd. Os yw'r baban yn ferch, yn tyfu i fyny'n ordew ac yn beichiogi, bydd y cylch yn dechrau eto.

Felly, mae angen gwell ymgysylltu i helpu menywod beichiog i fabwysiadu ffyrdd iachach o fyw. Mae angen i ni adeiladu ar waith gyda bydwragedd i'w helpu i wella'u dulliau o annog menywod i newid eu hymddygiad, efallai trwy ddefnyddio rhaglen ymyrraeth fer sy'n defnyddio'r model "*Have a Word*" llwyddiannus a ddatblygwyd i fynd i'r afael â chamddefnyddio alcohol. Mae hyn yn cynnwys cynyddu'r cyfraddau bwydo ar y fron i sicrhau'r dechrau gorau posibl i fywyd y plentyn.

Yn wir, mae angen i ni wella'r ddealltwriaeth a'r defnydd o faeth da a gweithgarwch corfforol trwy sicrhau isafswm ar gyfer lefelau addysg maeth a llythrennedd corfforol i staff, er enghraifft, mewn cyrsiau gofal plant.

Fel Llywodraeth, rydym yn gallu gosod y cyfeiriad ond mae'n hollbwysig hefyd bod ein gwasanaethau'n gweithio gyda'i gilydd yn well er mwyn gwella cyfraddau gordewdra yng Nghymru. Mae Grŵp Gorchwyl a Gorffen Atal Gordewdra ymysg Plant, sy'n cynnwys cynrychiolwyr o'r prif asiantaethau statudol a'r trydydd sector, wedi bod yn archwilio sut y gall y gwasanaeth cyhoeddus gyfrannu at gamau gweithredu mwy llwyddiannus yn y maes hwn, a bydd yn cyflwyno adroddiad yn gynnar y flwyddyn nesaf.

Bydd ysgolion yn parhau i fod yn hollbwysig i'n hymdrechion i wella lefelau gweithgarwch corfforol a maeth yn ein cymunedau. Mae'r Cyfnod Sylfaen ar gyfer plant 4-7 oed wedi'i adeiladu ar yr egwyddor o chwarae gweithredol. Mae Rheoliadau Bwyta'n Iach mewn Ysgolion 2013 yn cefnogi gwella deiet yn ystod y diwrnod ysgol. Mae'n bwysig i ni ystyried a oes modd efelychu'r gwaith da hwn mewn lleoliadau cyn ysgol a chymunedol eraill. Yn ogystal, aeth Tanni Grey-Thompson ati i adolygu Addysg Gorfforol yn y cwricwlwm ysgol a chynhyrchu adroddiad a argymhellodd y dylai Addysg Gorfforol ddod yn bwnc cwricwlwm craidd. Mae hyn yn cael ei gynnwys yn ail gam yr adolygiad cwricwlwm presennol.


Gan fod gan ordewdra raddiant cymdeithasol clir a pharhaus, mae angen cynyddu'r ffocws ar ardaloedd difreintiedig ar ben y gwaith sydd eisoes yn cael ei gyflawni. Mae gan gymunedau gyfraniad pwysig i'w wneud yma ac mae'n bwysig ein bod yn annog y cymunedau eu hunain i gymryd camau i fynd i'r afael â gordewdra ymysg plant ac yn helpu lle gallwn wneud hynny. Gellir cyflawni hyn trwy ddulliau cyd-gynhyrchu, sydd, oherwydd eu natur, yn gallu ennyn ymdeimlad o reolaeth a grymuso i'r gymuned.

Fel y nodwyd, gall Llywodraeth, gwasanaethau a'r cyhoedd weithio gyda'i gilydd i wella iechyd yng Nghymru, ond mae angen i ni fod yn glir bod yna gyfrifoldeb dwyochrog; fel dinasyddion dylai pob un ohonom ofalu am ein hiechyd ein hunain. Felly, mae cyfathrebu effeithiol â'r boblogaeth yn hollbwysig. Mae angen i ni sicrhau bod ein negeseuon iechyd cyhoeddus yn fwy perthnasol a hygyrch a chychwyn deialog ddwyffordd a fydd yn cael effaith wirioneddol.

shift^D Obesity System Influence Diagram

Full Map

- Clusters
- Core Loop
- Individual Psychology
- Social Psychology
- Individual Activity
- Activity Environment
- Food Consumption
- Food Production
- Individual Physiology
- Physiology



Minimum service requirements

Level 4 Specialist medical and surgical services

Targeted gateway - one to one
MDT support

Level 3

Specialist
MDT weight
management
services

Targeted gateway - dietetic and physical
activity support

Level 2

Community and
primary care weight
management services

Targeted gateway - Community
Intervention for overweight/obese

Level 1

Community based
prevention and early
intervention (self care)

BMI / waist circumference

Co-morbidity

BMI / waist circumference

Complexity

Level 4- Specialist medical and surgical services (including bariatric surgery)

- Intensive physician led specialist obesity management by multi disciplinary team of expert practitioners
- Access to specialist assessment and surgery at a bariatric surgery centre offering a choice of surgical interventions
- Provision of specialist long term post operative follow up and support with agreed criteria for discharge back to levels 2

Targeted one to one, physician led, intermediate or secondary care multi disciplinary team intervention (if level 3 interventions exhausted)

Level 3 – Specialist multi disciplinary team weight management services

- Specialist weight management services e.g. multi disciplinary weight management clinics in the community, intermediate or secondary care and dietetic weight management programmes that incorporate physical activity and behavioural change components
- Pharmacological interventions initiated by physicians, supported by targeted programmes

Targeted dietetic and physical activity weight management intervention (if level 2 interventions exhausted)

Level 2 – Community and primary care weight management services

- Identification of people who are overweight /obese with risk factor
- Primary care weight management services
- Community based weight management programmes referred into by primary care

Community Intervention for overweight/obese (if level 1 interventions exhausted)

• Level 1 – Community based prevention and early intervention (self care) All

- relevant policies to incorporate the health agenda and contribute to the creation of an environment that supports/promotes a healthy weight
- Lifestyle advice and information, signposting to public health interventions/services
- Combined nutrition and physical activity programmes in key settings
- Opportunities across settings/age groups to develop skills/knowledge on healthy eating and physical activity
- Self referral and opportunistic community based weight management programmes that meet best practice guidelines